# Board Paper

17 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur NRW B 21.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Ruth Jenkins** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Dylid craffu ar gynnydd a chynlluniau'r dyfodol.<br>Dylid cytuno i gymeradwyo cynnwys terfynol yr adroddiad erbyn 22 Gorffennaf, y tu allan i gyfarfod y Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Effaith ar yr amgylchedd:**<br>Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn sail i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a fydd yn ysgogi newidiadau i'r amgylchedd.<br><br>**Effaith ar yr economi:**<br>Trwy adrodd ynghylch y graddau y mae Adnoddau Naturiol Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a thrwy fod yn sail i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, gallai'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ysgogi newidiadau yn yr economi.<br><br>**Effaith ar y gymuned:**<br>Trwy adrodd ynghylch y graddau y mae Adnoddau Naturiol Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a thrwy fod yn sail i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn ysgogi newidiadau i les pobl Cymru. Bydd yn darparu sylfaen dystiolaeth genedlaethol er mwyn cyfrannu i Ddatganiadau Ardal, sef un o ofynion Bil yr Amgylchedd, a chyfrannu i asesiadau llesiant, sef un o ofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yn un o'r ffynonellau gwybodaeth a fydd ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddant yn gweithio ar lefel |

| | |
|---|---|
| | gymunedol.<br><br>**Effaith ar wybodaeth:**<br>Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn gasgliad o dystiolaeth am Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru. Bydd yn darparu gwaelodlin ac yn ychwanegu at ein gwybodaeth.<br><br>Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i wireddu egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt: |

## Mater

1. Rhoi gwybod i'r Bwrdd am gynlluniau a chynnydd o ran llunio Adroddiad cyntaf Cymru ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

## Cefndir

2. Mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r Adroddiad cyntaf ar Gyflwr Adnoddau Naturiol erbyn mis Medi 2016. Caiff gofynion penodol yr adroddiad eu hesbonio ym Mil yr Amgylchedd, fel y dangosir isod. Diben yr adroddiad yw bod yn sail i Bolisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a, lle bo'n briodol, bod yn sail i'r Datganiadau Ardal y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu llunio.

3. Ar hyn o bryd bwriedir i'r adroddiad fod ar gael ar ein gwefan ddiwedd mis Medi 2016. Yn ogystal, bydd crynodeb wedi'i argraffu ar gael o'r prif ganfyddiadau. Bydd hynny'n help wrth ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad, swyddogion Llywodraeth Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill.

4. Mae adran 8 Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi dyletswydd arnom i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd arnom i '*ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru'* a *'c[h]ymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol',* wrth arfer ein swyddogaethau. Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn sail i'n hadroddiad blynyddol ynghylch y ddyletswydd hon.

5. Yn benodol:
   *(5.1) Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi adroddiadau yn unol â'r adran hon sy'n cynnwys ei asesiad o gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.*

*(5.2) Rhaid i bob adroddiad nodi, ymysg pethau eraill—*
*(a) asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni;*
*(b) asesiad CNC o fioamrywiaeth (gan gynnwys yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7);*
*(c) yr hyn y mae CNC yn ei ystyried yw'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio, ac sy'n debygol o effeithio, ar gyflwr adnoddau naturiol;*
*(d) unrhyw agweddau ar gyflwr adnoddau naturiol y mae CNC yn ystyried nad oes ganddo wybodaeth ddigonol amdanynt i wneud asesiad.*

6. Bydd *asesiad o gyflwr ein hadnoddau naturiol* yn golygu ystyried statws amgylcheddol a'r hyn sy'n ysgogi newid. Bydd yn tynnu sylw at y risgiau i gydnerthedd ecosystemau a'r effaith ar les.

7. Bydd *y graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni* yn golygu ystyried y modd y mae pobl yn rheoli'r amgylchedd; defnydd tir; llygredd a'r modd y caiff gwastraff ei reoli; ac effeithlonrwydd ynni.

8. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r hyn sydd wedi achosi newid i Ecosystemau ac Adnoddau Naturiol Cymru, ac yn disgrifio hyd a lled y pwysau a achoswyd gan y newidiadau hynny dros gyfnod o amser. Bydd yr adroddiad cyntaf yn dechrau asesu'r graddau y mae gwaith rheoli cynaliadwy'n cael ei gyflawni, trwy fapio'r manteision (gwasanaethau ecosystemau) y mae pobl Cymru yn eu cael gan yr amgylchedd. Bydd yn nodi cyfleoedd i sicrhau cynifer o'r manteision hynny ag sy'n bosibl a chyfrannu at y nodau llesiant.

9. Cafodd Ciplun o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru ei lunio gennym ym mis Gorffennaf 2015 fel enghraifft o'r math o dystiolaeth y byddem yn ei defnyddio mewn Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Cafodd ei rannu ag aelodau'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2015. Cafodd ei ddefnyddio i ategu ein tystiolaeth yn ystod y broses o graffu ar Fil yr Amgylchedd. Rydym wedi adeiladu ar yr adroddiad hwnnw ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth ynghyd gan grwpiau "arbenigol" mewnol.

10. Roedd yr adroddiad ar ffurf "Ciplun" wedi'i seilio ar Adroddiad traddodiadol o Gyflwr yr Amgylchedd, ac roedd yn cynnwys enghreifftiau o gysylltiadau rhwng rhannau o'r amgylchedd. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall beth sy'n ofynnol o safbwynt asesu'r graddau y mae gwaith rheoli cynaliadwy'n cael ei gyflawni yng nghyswllt adnoddau naturiol. Mae hynny wedi arwain at gytundeb ynghylch strwythur terfynol yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol fel y disgrifir yn Atodiad 1.

11. Rydym wedi ymrwymo i lunio'r adroddiad ar y cyd. Rydym yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allanol drwy fforymau rhanddeiliaid sy'n bodoli eisoes (e.e. Grŵp Tystiolaeth y Cynllun Adfer Natur; Grŵp Rhanddeiliaid Morol a Grŵp Cyfeirio Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru; Fforwm Rheoli Tir Cymru; Fforwm Ansawdd Aer Cymru). Rydym wedi cael trafodaethau ar wahân â'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyswllt Amgylchedd Cymru, y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg.

12. Caiff y gwaith o ddatblygu'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ei oruchwylio gan Grŵp Llywio mewnol yn Cyfoeth Naturiol Cymru (Atodiad 2). Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru i rannu'r manylion diweddaraf am gynnydd. Mae gennym gynllun ar gyfer sicrhau ansawdd ac adolygu'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn fewnol ac yn allanol (Atodiad 3).

**13. <u>Camau nesaf</u>**

- Paratoi penodau drafft i'w hadolygu'n fewnol – **11 Ebrill 2016**
- Gwirio manteision ac asesu cyfleoedd – **30 Ebrill 2016**
- Rhannu negeseuon allweddol â'r prif randdeiliaid allanol. Bydd yn gyfle i ddarganfod barn pobl eraill – **Mai 2016**
- Ysgrifennu'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a chwblhau gwaith sicrhau ansawdd ac adolygu (fel y disgrifir yn Atodiad 3) – **1 Gorffennaf 2016**
- Cael cymeradwyaeth Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – **22 Gorffennaf 2016**
- Cyhoeddi'r adroddiad terfynol – **30 Medi 2016**

## <u>Asesiad</u>

14. Mae cynllun cyfathrebu ar gael ar gyfer llunio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, ei rannu â rhanddeiliaid allanol a'i gyhoeddi.

15. Y prif weithgarwch nesaf fydd rhannu negeseuon allweddol â rhanddeiliaid. Ein nod yw sicrhau cymaint o gyfranogiad a thrafodaeth ag sy'n bosibl gan bawb sydd â diddordeb. I wneud hynny, byddwn yn defnyddio gweminarau i rannu'r negeseuon a'r prif ganfyddiadau ac yn defnyddio fforymau rhyngweithiol ar gyfer adborth a thrafodaethau.

16. Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael ei gyflwyno mewn tair ffordd:
    16.1 Fersiwn syml wedi'i dylunio o'r crynodeb a'r prif negeseuon – gellir defnyddio'r fersiwn hon fel cyflwyniad i randdeiliaid nad ydynt yn gyfarwydd â'r adroddiad a'r defnydd a wneir ohono.
    16.2 Fersiwn sydd wedi'i rhannu'n benodau ac sydd ar y wefan.
    16.3 Dogfen pdf o'r adroddiad cyflawn, y gellir ei lawrlwytho.

17. Pan fydd y pecynnau hyn yn barod, byddwn yn manteisio ar bob cyfle i hybu ymwybyddiaeth o’r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a’r modd y gall pobl eraill wneud y defnydd gorau o’r wybodaeth.

**Argymhelliad/Argymhellion**

18. Cynigir y dylai’r adroddiad drafft terfynol gael ei ddosbarthu i aelodau’r Bwrdd ym mis Gorffennaf, yn dilyn y broses adolygu a nodir yn Atodiad 3. Gofynnir i’r Bwrdd gytuno â’r broses hon; penllanw’r broses fydd cymeradwyo’r ddogfen derfynol erbyn 22 Gorffennaf. Oherwydd yr amserlenni tynn, bydd angen i hynny ddigwydd y tu allan i gyfarfod sydd wedi’i drefnu o’r Bwrdd. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu gyda phapurau’r Bwrdd ar gyfer 6/7 Gorffennaf ond nid mewn pryd i gael ymateb ystyriol gennych yn y cyfarfod hwnnw.

**Prif risgiau**

19. Mae’r amserlenni’n dynn. Gan fod gwaith arall â blaenoriaeth yn effeithio ar yr hyn a gyflawnir ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, rydym 6 wythnos ar ei hôl hi o safbwynt yr amserlen yr oeddem wedi’i phennu ar ein cyfer ein hunain. Rydym yn mynd i’r afael â hynny drwy asesu’r llwybrau hanfodol a diwygio’r amserlen fel y bo’n briodol.

20. Mae cynnwys a strwythur yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol wedi newid yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y gwaith gwreiddiol a wnaed i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hydref 2015 wedi codi disgwyliadau na fydd modd eu bodloni efallai. Byddwn yn rheoli hynny drwy gyfathrebu â grwpiau penodol o randdeiliaid, gan fod mwy o eglurder yn awr ynghylch cynnwys y cynnyrch terfynol.

**Goblygiadau ariannol**

21. Mae cost dylunio a chyhoeddi’r adroddiad wedi’i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn 2016/17.

**Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb**

22. Rydym wedi cael gwybod y gallai fod angen asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb, gan y bydd y dystiolaeth a ddarperir yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn sail i bolisi cenedlaethol a fydd yn effeithio ar les pobl Cymru. Nid ydym eto wedi cwblhau asesiad llawn o’r materion er mwyn penderfynu a oes angen asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb mewn gwirionedd.

**Mynegai i'r Atodiadau**

1. Strwythur yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol
2. Aelodaeth o grŵp llywio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol
3. Amserlen ar gyfer sicrhau ansawdd ac adolygu'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol